# Adborth o'r Adolygiad Rheoli Gwybodaeth

## Cyngor Sir Ynys Môn

**Blwyddyn Archwilio:** 2011

**Cyhoeddwyd:** Mehefin 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 228A2011

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o'r gwaith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

Y tîm a oedd yn gyfrifol am y gwaith oedd Jeremy Evans ac Andrew Doughton.

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Crynodeb | 4 |
| Cwestiynau a chanfyddiadau lefel uchel | 6 |

# Crynodeb

**1.** Mae pryderon ynglŷn â rheolaeth ac ansawdd gwybodaeth a chofnodion yn y sector cyhoeddus wedi codi yn sgil methiannau a gafodd gyhoeddusrwydd eang. Mae canfyddiad hefyd fod gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus yn cael eu llesteirio am fod gwybodaeth yn cael ei rheoli'n aneffeithlon. Mae adroddiadau a gomisiynwyd gan y Llywodraeth, fel *Adroddiad Bichard*[1] wedi dangos bod 'methiant systemig a chorfforaethol' mewn perthynas â rheoli gwybodaeth.

**2.** Yn fwy diweddar, mae dau adroddiad[2] gan y Comisiwn Archwilio yn dangos na fu llawer o gynnydd ym maes llywodraeth leol yn Lloegr, ac yn atgyfnerthu'r angen i reoli gwybodaeth yn briodol er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau effeithiol.

**3.** Yn sgil y pwysau ariannol cynyddol ar y sector cyhoeddus, mae angen manteisio'n llawn ar y wybodaeth sy'n cael ei chadw er mwyn darparu a chynllunio ar gyfer gwasanaethau o ansawdd yn effeithiol, gan ddefnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael i wneud penderfyniadau sy'n cefnogi ac yn amddiffyn pobl sy'n agored i niwed.

**4.** Mae'r agenda gydweithredu yn tyfu yn sgil cyhoeddi adroddiad Simpson yn ddiweddar – *Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble?* Mae'r adroddiad hwn yn debygol o bennu'r cyfeiriad yn y dyfodol, ac os caiff ei fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru, bydd yn pennu disgwyliadau cenedlaethol ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Os mai cydweithredu trwy wasanaethau effeithlon ac integredig a rennir yw'r nod, bydd angen cael strategaethau effeithiol ar gyfer technoleg a gwybodaeth ar waith.

**5.** Yn 2010, nododd Swyddfa Archwilio Cymru fod llawer o awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd defnyddio gwybodaeth yn effeithiol er mwyn cefnogi'r broses o drawsnewid gwasanaethau a gwneud arbedion effeithlonrwydd. O ganlyniad, cynhelir adolygiadau o brosesau rheoli gwybodaeth ym mhob cyngor yng Nghymru.

**6.** Nod yr adolygiad hwn oedd ateb y cwestiwn: 'A yw agwedd y Cyngor at reoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol?' Cwblhawyd y gwaith maes ym mis Mai 2011.

**7.** Daeth ein hadolygiad o Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) i'r casgliad canlynol: **'Mae trefniadau presennol y Cyngor ar gyfer rheoli ei ased gwybodaeth yn wan ac yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i wella'**. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- nid oes gan y Cyngor strategaeth wybodaeth, ac mae perchenogaeth, atebolrwydd a chyfrifoldebau am wybodaeth heb eu neilltuo;

---

[1] *The Bichard Inquiry Report*, Cyhoeddiad Seneddol Mehefin 2004

[2] Y Comisiwn Archwilio, *Is there something I should know?* 2009, a'r Comisiwn Archwilio, *Nothing but the Truth*, 2009

- yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn diogelu gwybodaeth dechnegol yn dda ac yn perfformio'n dda mewn perthynas â cheisiadau am wybodaeth Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth, ond mae diffyg gwybodaeth am ei ased gwybodaeth yn golygu nad yw'n gallu deall yn llawn y meysydd â'r risg fwyaf ac o ganlyniad mae'n methu canolbwyntio ei ymdrechion ar y meysydd sydd fwyaf angen eu gwella.

**8.** Amlinellir ein canfyddiadau, ein casgliadau a'n cynigion ar gyfer gwelliant yn y tabl isod.

# Cwestiynau a chanfyddiadau lefel uchel

| Cwestiwn lefel uchel | A yw agwedd y sefydliad at reoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol? |
|---|---|
| **Ateb lefel uchel:**<br>**Rydym wedi dod i'r casgliad bod:** | Trefniadau presennol y Cyngor ar gyfer rheoli ei ased gwybodaeth yn wan ac yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i wella. |
| **Asesu'r trefniadau presennol** | Nid oes gan y Cyngor strategaeth wybodaeth, ac mae perchenogaeth, atebolrwydd a chyfrifoldebau am wybodaeth heb eu neilltuo. |
| **Asesu perfformiad** | Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn diogelu gwybodaeth dechnegol yn dda ac yn perfformio'n dda mewn perthynas â cheisiadau am wybodaeth Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth, ond mae diffyg gwybodaeth am ei ased gwybodaeth yn golygu nad yw'n gallu deall yn llawn y meysydd â'r risg fwyaf ac o ganlyniad mae'n methu canolbwyntio ei ymdrechion ar y meysydd sydd fwyaf angen eu gwella. |
| **Cynigion ar gyfer gwelliant** | **1.** Dylai'r Cyngor ddatblygu strategaeth wybodaeth i atgyfnerthu ei syniadau am faterion gwybodaeth mewn cyd-destun cenedlaethol a lleol, ac yna dylai ddatblygu a gweithredu cynllun i symud materion gwybodaeth ymlaen.<br>**2.** Dylai neilltuo cyfrifoldebau ac atebolrwydd yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO), gan sicrhau bod gan y swydd ddigon o awdurdod i gyflawni holl swyddogaethau'r SIRO, yn enwedig:<br>• perchenogaeth o'r polisi risg gwybodaeth;<br>• perchenogaeth o'r asesiad risg gwybodaeth;<br>• hyrwyddo materion gwybodaeth ar lefel uwch;<br>• darparu datganiad ysgrifenedig mewn perthynas â diogelu ased gwybodaeth y Cyngor i'w gynnwys yn Natganiad Rheolaeth Fewnol y Cyngor. |

| Cwestiwn lefel uchel | A yw agwedd y sefydliad at reoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliant yn gadarnhaol? |
| --- | --- |
| **Cynigion ar gyfer gwelliant** | **3.** Sicrhau bod Fforwm Diogelu Gwybodaeth yn cyflawni ei gyfrifoldebau a'i atebolrwydd yn briodol, gan wahanu dyletswyddau yn glir. Er enghraifft, gallai'r SIRO gadeirio grŵp o'r fath, a dylai'r grŵp gyfarfod yn rheolaidd a bod â goruchwyliaeth gorfforaethol a chyfrifoldeb/atebolrwydd am faterion gwybodaeth, yn enwedig:<br>• sefydlu safonau a pholisïau;<br>• monitro cydymffurfiaeth â safonau a pholisïau;<br>• hyfforddiant rheoli gwybodaeth;<br>• ymdrin â digwyddiadau a materion gwybodaeth a dysgu unrhyw wersi perthnasol;<br>• rheoli risg gwybodaeth.<br>**4.** Datblygu a gweithredu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i'r holl staff er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu dangos bod cyfrifoldeb am faterion gwybodaeth wedi'i rannu ledled y sefydliad.<br>**5.** Datblygu'r wybodaeth sydd ganddo eisoes er mwyn i'r Cyngor cyfan ddeall trefniadau rhannu gwybodaeth gan liniaru risgiau ac adolygu'r holl brosesau rhannu gwybodaeth presennol er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisïau cyfredol y Cyngor.<br>**6.** Cryfhau trefniadau parhad busnes y Cyngor er mwyn sicrhau bod digon o ddata yn cael ei gadw (oddi ar y safle) i allu adfer holl wybodaeth y gwasanaethau pe bai trychineb yn codi. |

| Cwestiwn | Ydyn neu Nac ydyn | Oherwydd: |
| --- | --- | --- |
| **A yw cynlluniau rheoli gwybodaeth y sefydliad yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?** | Yn rhannol | • Nid oes gan y Cyngor ddogfen sy'n nodi strategaeth ar gyfer rheoli gwybodaeth.<br>• Mae gan y Cyngor gynlluniau ar gyfer tri phrosiect gwybodaeth arwyddocaol:<br>– 2011 – Datblygu cyfleuster archifau modern addas i'r diben (Gofal Cymdeithasol – prif fabwysiadwr);<br>– 2012 ymlaen – Caffael a Datblygu System Rheoli Cofnodion a Dogfennau Electronig (EDRMS); a'r<br>– prosiect Dywedwch wrthym Unwaith.<br>• Mae Allrwyd Ddiogel Cyswllt Llywodraeth (GCSx) Llywodraeth y DU yn rhwydwaith ardal eang diogel sy'n galluogi sefydliadau sector cyhoeddus i ryngweithio a rhannu data yn breifat ac yn ddiogel ag adrannau'r llywodraeth ganolog, fel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu. Mae'n rhaid i GCSx gydymffurfio â safonau diogelwch, ac mae'r Cyngor wedi datblygu amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau diogelu gwybodaeth i wneud hyn. Fodd bynnag, maent yn canolbwyntio ar ddiogelwch technegol (TG) yn hytrach na'r agenda wybodaeth ehangach.<br>• Mae polisïau a dogfennau canllawiau'r Cyngor mewn perthynas â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi'u datblygu yn dda; mae'r datganiad polisi Mynediad at Wybodaeth yn dda.<br>• Mae gan y Cyngor bolisïau, canllawiau a threfniadau perthnasol ar gyfer archifo a gwaredu gwybodaeth bapur, ac mae negeseuon e-bost yn hysbysu'r staff am y canllawiau a'r polisïau parhaol ar y fewnrwyd. |

| Cwestiwn | Ydyn neu Nac ydyn | Oherwydd: |
|---|---|---|
| **A yw trefniadau rheoli gwybodaeth y sefydliad yn debygol o sicrhau gwelliant parhaus?** | Nac ydyn | • Mae trefniadau rheoli gwybodaeth y Cyngor yn wan. Nid yw cyfrifoldebau SIRO wedi'u neilltuo ac nid oes unrhyw grŵp yn cyflawni cyfrifoldebau'r Fforwm Rheoli Diogelwch Gwybodaeth yn unol â disgrifiad y Safon Ryngwladol (ISO 27001).<br>• Mae trefniadau ar gyfer y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data yn gadarn ac yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol a'r Swyddogion Cydymffurfiaeth adrannol enwebedig sy'n gyfrifol am y trefniadau hyn. Mae'r Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol a'r Swyddogion Cydymffurfiaeth yn cyfarfod yn rheolaidd, ac mae hyfforddiant y Grŵp Mynediad at Wybodaeth (Grŵp A2I) yn cael ei ddarparu i'r swyddogion Cydymffurfiaeth yn y cyfarfodydd a hefyd gan ddarparwyr allanol yn rheolaidd.<br>• Mae'r Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol yn anfon negeseuon e-bost at aelodau'r Grŵp A2I yn rheolaidd er mwyn rhoi gwybod iddynt am benderfyniadau'r Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth, hysbysiadau a gwybodaeth am faterion allweddol.<br>• Mae materion yn ymwneud ag archifau a gwaredu gwybodaeth yn rhan o gylch gorchwyl y Grŵp A2I.<br>• Mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant cynefino ar gyfer pob aelod o staff newydd (Diogelwch, Deddf Diogelu Data /Deddf Rhyddid Gwybodaeth) ond mae nifer sylweddol o'r staff presennol heb dderbyn hyfforddiant ar ddiogelu gwybodaeth. Mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu i aelodau etholedig yn rheolaidd, a lluniwyd Canllawiau i Aelodau ar fynediad at wybodaeth yn 2010. |

| Cwestiwn | Ydy neu Nac ydy | Oherwydd: |
|---|---|---|
| **A yw perfformiad rheoli gwybodaeth yr awdurdod yn ei helpu i ddarparu gwasanaethau effeithlon, effeithiol a darbodus?** | Yn rhannol | • Mae gan y Cyngor EDRMS iDOC a ddefnyddir gan nifer o wasanaethau. Mae system iDOC yn cael ei chyflwyno i feysydd gwasanaeth eraill. Â'r rhaglen hon ar waith, nid yw'n glir pam y mae'r Cyngor yn ceisio caffael EDRMS amgen yn 2012. Mae'r Cyngor wedi edrych ar systemau a ddefnyddir gan gynghorau eraill ac wedi ymweld â Chyngor Sir Ddinbych i benderfynu a fyddai modd datblygu trefniant caffael ar y cyd.<br>• Mae'r Cyngor wedi'i achredu i ddefnyddio'r GCSx, sy'n golygu bod perimedr seilwaith y Cyngor yn ddiogel, a bod pob gweinydd mewnol yn cael ei ddefnyddio a'i reoli mewn ffordd sy'n ystyried materion diogelu gwybodaeth.<br>• Mae'r Cyngor wedi llofnodi Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) ac mae pob protocol newydd ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth bersonol yn cael ei lunio yn unol â'r WASPI. Mae gan y Cyngor rai protocolau trosglwyddo a fodolai yn barod yn yr adran TG a oedd yn awdurdodi trosglwyddo data ar raddfa fawr, ac mae rhai protocolau trosglwyddo penodol ar waith mewn rhai cyfarwyddiaethau fel y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Cyngor yn datblygu ei wybodaeth am ei brotocolau/cytundebau trosglwyddo cyfredol, gan liniaru'r risg na fydd trefniadau yn cydymffurfio'n llawn â pholisïau cyfredol y Cyngor o bosibl.<br>• Nid oes gan y Cyngor wybodaeth gorfforaethol gadarn am ei ddaliadau gwybodaeth. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn credu bod hyn yn angenrheidiol gan fod uwch swyddogion yn dweud bod gan wasanaethau'r Cyngor wybodaeth ddigonol am eu daliadau gwybodaeth. Fodd bynnag, mae diffyg arolygiaeth gorfforaethol yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i asesu'n llawn y risgiau sy'n deillio o'i ased gwybodaeth.<br>• Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn storfa gofnodion fodern, gan nad oedd ei drefniadau blaenorol yn addas i'r diben, un o'i dri phrif brosiect gwybodaeth. Mae'r storfa newydd yn cydymffurfio â BS5454 ac mae'n ddigon mawr i ymdopi a thwf y dyfodol. Mae gwybodaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei throsglwyddo i'r storfa, gan wella gallu'r Cyngor i reoli gwybodaeth mewn archifau a storfeydd. Fodd bynnag, nid yw trefniadau gwaredu gwybodaeth electronig (gan gynnwys e-bost) yn glir.<br>• Sefydliadau cymeradwy â'r drwydded briodol sy'n gyfrifol am waredu cyfarpar TG. |

| Cwestiwn | Ydy neu Nac ydy | Oherwydd: |
| --- | --- | --- |
| **A yw perfformiad rheoli gwybodaeth yr awdurdod yn ei helpu i ddarparu gwasanaethau effeithlon, effeithiol a darbodus?** | Yn rhannol | • Nid oes gan y Cyngor gynlluniau Parhad Busnes neu Adfer ar ôl Trychineb ar waith. Lleolir y storfa ddata oddi ar y safle yn Oriel Môn ger Llangefni. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y lleoliad hwn o fewn y radiws naw milltir sy'n cael ei effeithio gan belydriad electromagnetig yn dilyn ffrwydrad bom, ac felly mae'n risg i'r Cyngor. Fodd bynnag, dewiswyd y safle oherwydd bod ganddo amrywiaeth eang o reolaethau amgylcheddol gan gynnwys diogelwch ac atal tân.<br>• Mae'r Tîm Gwybodaeth Gorfforaethol yn monitro ceisiadau am fynediad at wybodaeth ac yn rhoi cyngor ac arweiniad i swyddogion. Mae'r gwaith o ymateb i geisiadau yn cael ei ddirprwyo i wasanaethau trwy Swyddogion Cydymffurfiaeth sydd wedi'u henwebu a'u hyfforddi (gweler uchod). Mae gwybodaeth yn cael ei choladu gan staff adrannol ar gais y Swyddogion Cydymffurfiaeth. Mae Swyddogion Cydymffurfiaeth yn awdurdodi'r ymateb i geisiadau ar ran eu gwasanaethau unigol.<br>• Ni chafodd y cwynion a wnaed i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2011 eu hategu, ond yn 2010 cafodd dwy gŵyn yn ymwneud â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol eu hategu a chyhoeddwyd hysbysiadau o'r penderfyniadau. Mae cynllun cyhoeddi Deddf Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor yn ymgorffori cynllun cyhoeddi model cyfredol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, felly mae'n gynllun cyfoes. |

| Cwestiwn | Ydy neu Nac ydy | Oherwydd: |
| --- | --- | --- |
| **A yw'r sefydliad yn monitro ac yn gwerthuso gwelliant a pherfformiad yn effeithiol?** | Yn rhannol | • Nid oes unrhyw ddangosyddion perfformiad lleol yn ymwneud â gwybodaeth ac eithrio amseroedd ymateb i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth/Deddf Diogelu Data. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos bod y Cyngor wedi derbyn 148 o geisiadau yn y chwarter, gan ymateb i 94% o'r ceisiadau diweddar yn unol â'r amserlen ofynnol.<br>• Mae Archwiliad Mewnol wedi adolygu'r Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, gan fethu canfod unrhyw achosion pryder sylweddol.<br>• Mae'r adran TGCh yn cyfrannu at waith SOCITM a Cymru WARP. Mae'r Cyngor wedi cymryd rhan mewn ymarferion meincnodi SOCTIM ar y cyd ag awdurdodau eraill yng Nghymru, ond yn fwy diweddar mae'r Cyngor wedi cydweithredu ledled rhanbarth y Gogledd oherwydd pryderon cyffredinol ynglŷn â gwerth ymarferiad meincnodi SOCTIM.<br>• Fel rhan o'r archwiliad allanol, cynhaliodd PricewaterhouseCoopers adolygiad o drefniadau Rheoli Gwybodaeth y Cyngor. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2011 (*Oes gan y Cyngor drefniadau addas ar gyfer llywodraethu ei wybodaeth yn effeithiol?*), gan nodi nifer o feysydd i'w gwella a naw argymhelliad. Mae'r Cyngor yn datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk